Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

## Panel Craffu

## Ymarfer Hap-samplu

# Bwrgleriaethau a Lladradau

## Canfyddiadau ac Adborth Aelodau'r Panel

**Chwefror 2024**

## Cynnwys

## 1. Trosolwg

**Ar 7 Chwefror 2024 mynychodd yr Aelodau gyfarfod Panel Craffu ar Warediadau y Tu Allan i'r Llys Dyfed-Powys. Adolygodd yr aelodau ddetholiad o achosion ieuenctid ac oedolion o Fwrgleriaethau a Lladradau, yr ymdriniwyd â hwy trwy Warediad y Tu Allan i'r Llys. Ystyriodd y Panel gyfanswm o 17 o achosion, 9 yn ymwneud â phobl ifanc dan amheuaeth ac 8 yn ymwneud ag oedolion. Yn wreiddiol, roedd y panel wedi penderfynu canolbwyntio ar achosion Troseddau Cefn Gwlad ond ni fu modd adfer achosion oherwydd gweithrediad system cofnodi troseddau newydd yr Heddlu, Niche. Cytunwyd y bydd cyfarfod yn y dyfodol yn canolbwyntio ar Droseddau Cefn Gwlad unwaith y bydd y system Niche wedi'i gweithredu'n llawn.**

**Cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn rhithwir trwy Microsoft Teams.**

## 1. Cefndir, pwrpas a methodoleg

**Mae Aelodau'r Panel gyda'i gilydd yn cytuno ar faes i ganolbwyntio arno ar gyfer pob cyfarfod. Maent yn derbyn ffeiliau achos perthnasol bythefnos cyn pob cyfarfod sydd wedi'u dewis ar hap gan Gadeirydd y Panel.  Yna mae'r Panel yn cyfarfod i drafod pob achos a lle bo'n bosibl dod i gasgliad ynghylch priodoldeb y gwarediad. Wrth benderfynu ar hyn, mae’r Panel yn ystyried y meini prawf canlynol:**

**•Barn ac adborth y dioddefwr a'r troseddwr.**

**•Cydymffurfio â pholisi'r heddlu.**

**•Rhesymeg dros y penderfyniad a'r canlyniad.**

**•Effaith gymunedol bosibl.**

**•Amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd.**

**•Opsiynau eraill posibl a allai fod wedi bod ar gael.**

**Mae’r Panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o’r canlynol:**

**•Defnydd priodol sy'n gyson â pholisi.**

**•Defnydd priodol gydag amheuon Aelodau'r Panel.**

**•Defnydd amhriodol neu anghyson â pholisi.**

**•Panel yn methu dod i gasgliad.**

## 1. Cymeradwyaeth gan Gadeirydd y Panel

**Gallaf i ___ (printiwch yr enw) gadarnhau fy mod wedi darllen yr adroddiad, a'i fod yn cynrychioli'n llawn y safbwyntiau a fynegwyd gan y Panel yn ystod ein hymarfer samplu ar hap dyddiedig 7 Chwefror 2024.**

**Llofnodwyd: ___________**

**Dyddiad:**

## 1. Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod panel blaenorol

**O ganlyniad i waith y Panel Craffu ar Waredîadau y Tu Allan i'r Llys, mae'r camau gweithredu canlynol wedi'u cwblhau ers y cyfarfod diwethaf:**

- **Cymerwyd cam yn y cyfarfod diwethaf i atgoffa swyddogion Heddlu Dyfed-Powys o gysylltiadau eu Tîm Troseddwyr Ifanc (TTI) ac o bwysigrwydd cysylltu â nhw gydag unrhyw ymholiadau. Cadarnhaodd y Prif Arolygydd Matthew Price fod pob pwynt cyswllt rhanbarthol wedi'i hysbysu a bod swyddogion wedi'u hannog i ymgysylltu â'u Tîm Troseddwyr Ifanc am gyngor.**
- **Cymerwyd camau yn y cyfarfod diwethaf i sicrhau bod yr holl TTIau perthnasol yn darparu adroddiadau. Nodwyd bod y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau ar ôl derbyn adroddiadau gan bob TTI.**
- **Cymerwyd cam yn y cyfarfod diwethaf i TTI Powys gael ei wahodd i gyfarfod nesaf panel Gwarediad y Tu Allan i'r Llys. Nodwyd bod y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau gan fod y Swyddog Heddlu Michelle Wilkinson yn bresennol yn y cyfarfod.**
- **Cymerwyd camau yn y cyfarfod diwethaf i ddarparu niferoedd cyfartal o achosion Powys a Dyfed yng nghyfarfod nesaf y panel. Amlygodd SCHTh hyn i'r tîm archwilio troseddau yn ystod y broses dethol achosion a gwnaed ymdrechion gorau i sicrhau y cafwyd nifer cyfartal o achosion Powys a Dyfed.**

## 5.0 Meysydd ar gyfer gwelliant

**Nodwyd y maes canlynol ar gyfer gwelliant o ganlyniad i waith y Panel y chwarter hwn:**

- **Swyddogion Heddlu Dyfed-Powys i'w hatgoffa o'r polisi Gwarediad y Tu Allan i'r Llys a phryd mae'n briodol cyhoeddi Gwarediad y Tu Allan i'r Llys.**

## 6.0 Ystyried achosion oedolion o Fwrgleriaethau a Lladradau

**Ystyriwyd wyth achos oedolion o Fwrgleriaethau a Lladradau. Roedd pob un o'r wyth achos yn faterion â datrysiad cymunedol.**

| Asesiad yr aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| **Priodol** | **3** |
| **Priodol gydag amheuon** | **2** |
| **Amhriodol** | **3** |

**Manylir ar sylwadau Aelodau'r Panel isod.**

**Achos 1**

**Nododd y panel y datrysiad cyflym a'r ymddiheuriad a roddwyd gan y troseddwr honedig. Nodwyd nad oedd gan y troseddwr honedig unrhyw euogfarnau blaenorol ac mai dyma oedd ei drosedd gyntaf. Cydnabu'r panel bod y troseddwr honedig yn profi anawsterau ariannol ac felly penderfynodd y panel fod y datrysiad cymunedol a gyhoeddwyd yn ganlyniad cymesur.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 2**

**Nodwyd bod yr eitem dan sylw wedi'i dychwelyd a bod y troseddwr honedig yn edifeiriol ac wedi ymddiheuro i'r dioddefwr. Nododd y panel hefyd fod y dioddefwr yn fodlon ar adennill yr eitem a ddygwyd a bod y mater wedi'i ddatrys yn gyflym. Nid oedd gan y troseddwr honedig unrhyw euogfarnau blaenorol; er i'r panel nodi bod yr eitem wedi'i dwyn yn flaenorol nid oedd yn hysbys ai'r un troseddwr honedig oedd yn gyfrifol. Cytunodd y panel fod y datrysiad cymunedol a gyhoeddwyd wedi'i defnyddio'n briodol ac yn gyson â'r polisi.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 3**

**Roedd y panel yn cydnabod y nifer isel o eitemau a ddygwyd ac nad oedd gan y troseddwr honedig unrhyw euogfarnau blaenorol. Amlygodd y panel fod y drosedd wedi digwydd ym mis Gorffennaf 2023 pan oedd y troseddwr honedig yn 17 oed, ond ni chofrestrwyd y datrysiad cymunedol tan fis Tachwedd 2023 pan oedd y troseddwr honedig wedi cael ei ben-blwydd yn 18 oed. Mynegodd y panel eu pryder ynghylch yr oedi a phwysleisiodd bwysigrwydd prosesu achosion ieuenctid cyn gynted â phosibl, yn enwedig achosion lle mae'r troseddwr honedig bron yn 18 oed. Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag achos posibl yr oedi ond rhoddwyd sicrwydd i'r panel fod gwaith yn mynd rhagddo rhwng y Timau Troseddwyr Ifanc, Heddlu Dyfed-Powys a Gwasanaeth Erlyn y**

**Goron i fynd i'r afael â'r oedi hwn a'i ddatrys. Yn gyffredinol, penderfynodd y panel fod y datrysiad cymunedol wedi'i gyhoeddi'n briodol.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 4**

**Nododd y panel y defnydd o rym a ddefnyddiwyd i fynd i mewn i'r annedd a'r difrod a achoswyd yn yr achos hwn. Trafododd y panel yr effaith sylweddol bosibl y byddai'r digwyddiad hwn wedi'i gael ar y dioddefwr a nododd ddymuniad y dioddefwr i anelu at euogfarn. Cytunodd y panel fod hwn yn ddefnydd amhriodol o'r polisi Gwarediad y Tu Allan i'r Llys a gofynnodd bod y swyddogion dan sylw yn cael gwybod am ganfyddiadau'r panel a'u hatgoffa o'r polisi Gwarediad y Tu Allan i'r Llys.**

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 5**

**Nododd y panel eu pryderon ynghylch cyhoeddi'r datrysiad cymunedol gan fod gan y troseddwr honedig euogfarnau blaenorol am ddwyn o siopau a'r digwyddiad dan sylw oedd yr eildro mewn chwe wythnos i'r troseddwr honedig gael ei ddal yn dwyn o siopau. Nododd y panel hefyd fod y troseddwr honedig wedi bod yn y llys am ddwy drosedd flaenorol a holodd pam nad oedd y troseddwr honedig yn cael ei ddwyn i dreial ar gyfer y digwyddiad hwn hefyd. Cytunodd y panel fod hwn yn ddefnydd amhriodol o'r Gwarediad y Tu Allan i'r Llys a holodd pam roedd y swyddogion o'r farn bod y datrysiad cymunedol yn briodol.**

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 6**

**Trafododd y panel werth uchel yr achos hwn a nododd fod gweithredoedd y troseddwyr honedig o bosibl yn awgrymu eu bod wedi cynllunio'r lladrad ymlaen llaw. Cydnabu'r panel yr effaith bosibl ar y dioddefwr a nododd na all cwmnïau tacsis hawlio iawndal ar eu hyswiriant oni bai fod y mater yn dod gerbron y llys Cydnabu aelodau'r panel hefyd fod y troseddwyr honedig yn feddw ond cytunwyd bod y datrysiad cymunedol yn briodol ond bod ganddynt rai amheuon.**

**Asesiad y Panel: Defnydd priodol gydag amheuon**

**Achos 7**

**Nododd y panel werth isel y drosedd a bod y troseddwr honedig wedi ymddiheuro. Nododd y panel hefyd fod gan y troseddwr honedig euogfarnau blaenorol am yr un drosedd ond cwestiynodd a oedd yn dioddef o broblemau iechyd meddwl. Cytunodd y panel fod y datrysiad cymunedol a gyhoeddwyd yn briodol ond roedd ganddo amheuon oherwydd yr hanes o aildroseddu y troseddwr honedig.**

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon.**

**Achos 8**

**Nododd y panel eu pryderon ynghylch y datrysiad cymunedol a gyhoeddwyd gan fod gan y troseddwr honedig euogfarnau blaenorol am ddwyn o siopau a'i fod wedi dwyn o'r siop dan sylw yn flaenorol. Nododd y panel hefyd werth uchel y nwyddau a ddygwyd a thynnodd sylw at y ffaith bod y troseddwr honedig wedi torri ei orchymyn cymunedol. Pwysleisiodd y panel fod hwn yn ddefnydd amhriodol o'r Gwarediad y Tu Allan i'r Llys gan yr heddlu a gofynnodd i'w canfyddiadau gael eu trosglwyddo i ranbarth Sir Benfro i sicrhau bod swyddogion yn ymwybodol.**

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

## 7.0 Ystyriaeth o achosion ieuenctid o fwrgleriaethau a lladradau

**Adolygodd aelodau'r panel naw achos a rhoddwyd Gwarediad Cyfiawnder Adferol Ieuenctid i bob un ohonynt.**

**Roedd asesiadau’r aelodau fel a ganlyn:**

| Asesiad yr aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| **Priodol** | **8** |
| **Amhriodol** | **1** |

**Achos 1**

**Trafododd y panel werth isel y drosedd a chydnabod bod y troseddwyr honedig wedi ymddiheuro i'r dioddefwr. Mynegodd y panel eu pryderon ynghylch bregusrwydd y troseddwyr honedig a chytunwyd bod yr Gwarediad Cyfiawnder Adferol Ieuenctid wedi'i gyhoeddi'n briodol yn y gobaith y bydd yn eu cefnogi.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 2**

**Nododd y panel werth isel y drosedd a chydnabu fod y troseddwr honedig wedi ymddiheuro i'r dioddefwr. Daeth y panel i'r casgliad bod y Gwarediad Cyfiawnder Adferol Ieuenctid wedi'i ddefnyddio'n briodol.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 3**

**Nododd y panel werth isel yr eitemau a gymerwyd a bod y troseddwr honedig wedi dychwelyd i dalu am yr eitemau. Nododd y panel eu pryderon bod y troseddwr ifanc honedig wedi'i ddwyn i mewn i orsaf yr heddlu i'w holi, a holodd a allai'r heddlu fod wedi mynd i gartref y troseddwr honedig yn unol â'r nod o gadw plant allan o orsafoedd heddlu. Yn gyffredinol, roedd y panel o'r farn ei fod yn ddefnydd priodol o'r Gwarediad Cyfiawnder Adferol Ieuenctid.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 4**

**Trafododd y panel y cymhelliad posibl i ddwyn y ci bach a nododd yr anhawster wrth asesu proses feddwl llanc. Nododd y panel yr effaith fawr bosibl ar y dioddefwyr ond nododd fod y ci bach wedi'i ddychwelyd yn ddianaf a chyhoeddwyd ymddiheuriad. Nododd y panel y drosedd ychwanegol bosibl o fynd i mewn i'r eiddo heb ganiatâd ond cytunwyd mai dyma drosedd gyntaf y troseddwr honedig a bod y ci bach yn cael ei ddychwelyd. Felly, cytunodd y panel fod yr Gwarediad Cyfiawnder Adferol Ieuenctid wedi'i gyhoeddi'n briodol.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 5**

**Cydnabu'r panel fod 3 o'r 4 eitem a gafodd eu dwyn wedi'u dychwelyd a cafodd y dioddefwr ei ad-dalu a derbyniodd lythyr o ymddiheuriad gan y troseddwr honedig. Serch hyn, asesodd y panel hefyd fod gan y troseddwr honedig euogfarnau blaenorol am wir niwed corfforol a'i fod yn torri amodau ei ryddhad amodol yn ystod y digwyddiad hwn. Felly, daeth y panel i'r casgliad bod y Gwarediad Cyfiawnder Adferol Ieuenctid wedi'i gyhoeddi'n amhriodol ac y dylai'r troseddwr honedig fod wedi cael ei ddwyn i'r llys.**

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 6**

**Nodwyd gan y panel bod yr eitemau dan sylw o werth isel ac nad oedd gan y troseddwr honedig unrhyw euogfarnau blaenorol. Cytunodd y panel fod y drosedd yn ansoffistigedig a bod y Gwarediad Cyfiawnder Adferol Ieuenctid a gyhoeddwyd yn briodol.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 7**

**Roedd y panel yn cydnabod mai hon oedd trosedd gyntaf y troseddwr honedig a bod ei rieni wedi ymgysylltu a'i fod wedi ymddiheuro i'r dioddefwr. Nododd y panel hefyd fod y troseddwr honedig wedi gweithio fel rhan o grŵp i dynnu sylw a dwyn yr eitemau ond nododd fod yr Gwarediad Cyfiawnder Adferol Ieuenctid yn briodol ar gyfer trosedd gyntaf. Trafododd y panel y cynnydd mewn materion yn ymwneud â fêps a nododd eu pryderon ynghylch troseddwyr ifanc.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 8**

**Mynegodd y panel eu pryderon ynghylch oedran ifanc y troseddwyr honedig a'u perthynas ag alcohol. Nododd y panel fod yr eitemau dan sylw o werth isel a bod yr eitemau wedi'u hadennill. Cytunodd y panel fod yr Gwarediad Cyfiawnder Adferol Ieuenctid wedi'i gyhoeddi'n briodol.**

**Asesiad y Panel: Priodol**


**Achos 9**

**Trafododd y panel werth isel yr eitemau a ddygwyd a nododd fod y drosedd yn ansoffistigedig. Cytunodd y panel fod yr Gwarediad Cyfiawnder Adferol Ieuenctid wedi'i gyhoeddi'n briodol.**


**Asesiad y Panel: Priodol**

## 8.0 Asesiadau'r Panel hyd yma

**Mae'r siart isod yn dangos asesiad y Panel o achosion Bwrgleriaethau a Lladradau a ystyriwyd yn y cyfarfod diweddaraf:**





**Ers mis Tachwedd 2013 mae'r Panel wedi ystyried ystod o warediadau, fel y dangosir yn y graff isod.**





**O’r 606 o achosion a archwiliwyd rhwng Tachwedd 2013 a Chwefror 2024, aseswyd bod 64.94% yn briodol, 20.8% yn amhriodol, 19.18% yn briodol gydag amheuon a methodd y panel â dod i gasgliad mewn 2.5% o achosion.**


**Mae’r newid yn y casgliadau y daethpwyd iddynt dros amser i’w weld yn y graff isod:**




**Mae’r graff isod yn dangos y dadansoddiad yn ôl math o drosedd fel canran o’r achosion a ystyriwyd rhwng Tachwedd 2013 a Chwefror 2024.**





**Mae’r graff a ganlyn yn dangos nifer gwirioneddol yr achosion a aseswyd o fewn pob math o drosedd a barn y Panel o ganlyniad yn eu cyfarfodydd rhwng Tachwedd 2013 a Chwefror 2024.**




## 9.0 Ethnigrwydd a Rhywedd

**Mae’r siart a ganlyn yn dangos dadansoddiad o’r achosion a adolygwyd yn y cyfarfod hwn o ran eu rhywedd:**



**Mae'r tabl canlynol yn dangos dadansoddiad o'r achosion a adolygwyd yn y cyfarfod hwn o ran ethnigrwydd.**

| Ethnigrwydd a Nodwyd | Hunan-asesiad y sawl sy'n cael ei amau | Asesiad Swyddog |
|---|---|---|
| Gwyn Prydeinig | 16 | 0 |
| Gwyn – Gogledd Ewrop | 0 | 16 |
| Gwyn – De Ewrop | 0 | 1 |
| Asiaidd | 1 | 0 |
| Asiaidd – Indiaidd gan gynnwys Asiaidd Prydeinig | 0 | 1 |
| | | |

**Ni nodwyd unrhyw faterion cydraddoldeb hiliol na rhyw fel rhan o adolygiad y Panel.**

## 10.0 Ffocws y Panel yn y dyfodol

**Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd y Panel yr hoffent dderbyn trosolwg o’r holl bynciau y canolbwyntiwyd arnynt er mwyn penderfynu beth i ganolbwyntio arno nesaf.**

**Cam gweithredu 1:Swyddogion sy'n ymwneud ag achos oedolyn 4 i gael gwybod am ganfyddiadau'r panel a chael eu hatgoffa o'r polisi Gwarediad y Tu Allan i'r Llys.**

**Cam gweithredu 2:Swyddogion sy'n ymwneud ag achos oedolyn 5 i gael gwybod am ganfyddiadau'r panel a chael eu hatgoffa o'r polisi Gwarediad y Tu Allan i'r Llys.**

**Cam gweithredu 3:Prif Arolygydd Steve Thomas i drosglwyddo canfyddiadau'r panel ar achos oedolion 6 i Weithrediadau Ceredigion.**

**Cam gweithredu 4:Prif Arolygydd Steve Thomas i drosglwyddo canfyddiadau paneli ar achos oedolyn 8 i Weithrediadau Sir Benfro.**